A Bill to authorise and regulate Minor Variations to Authorised Liturgies

Explanatory Memorandum

Since the introduction of the revised Book of Common Prayer in 1984, a number of alternative rites have been incorporated within the Book by legislation passed in Governing Body. In more recent years, the Bench has commissioned from the Standing Liturgical Advisory Commission a number of pieces of supplemental liturgical material, either by way of seasonal material which could be used to enhance the experience of the use of liturgies from the Book of Common Prayer with the consent of Governing Body, or by way of occasional liturgies for use on specific occasions or in specific contexts by use of their existing *ius liturgicum* (a bishop's right to order liturgical life in their diocese, subject to the law of the Church in Wales).

More recently a question has arisen concerning the extent of variation to the liturgies of the Book of Common Prayer that may be used in connection with such material, and the lawfulness of any such variations, mindful that all clergy promise at their institution or licensing to use only those 'forms of service which are allowed by lawful authority'.

This bill seeks to clarify the canon law surrounding variations within the liturgical life of the Church in Wales by specifying the nature and extent that clergy may authorise or adopt such variations (Clause 1). Clause 2 requires any and all variations to fit certain criteria, while Clauses 4 to 7 give further details of the way in which the canon should be applied in the Church in Wales. Clause 3 permits the Bench of Bishops and the Governing Body to prepare or compile material which may be used by ministers in accordance with Clause 1. Clause 5 places certain limits on the permission given in Clause 1 by excluding matters of explicit doctrinal import, or material within experimental rites.

Memorandum approved by the Standing Committee 8 July 2021

Bil i awdurdodi a rheoleiddio Mân Amrywiadau i Litwrgi Awdurdodedig

Memorandwm Esboniadol

Ers cyflwyno'r Llyfr Gweddi Gyffredin ym 1984, mae nifer o ddefodau amgen wedi'u cynnwys yn y Llyfr yn sgil deddfwriaeth a basiwyd gan y Corff Llywodraethol. Mewn blynyddoedd diweddar, mae'r Fainc wedi comisiynu nifer o ddeunyddiau litwrgaidd ategol gan y Comisiwn Sefydlog Ymgynghorol ar Litwrgi, naill ai ar ffurf deunydd tymhorol y gellid ei ddefnyddio i gyfoethogi'r profiad o ddefnyddio litwrgïau o'r Llyfr Gweddi Gyffredin gyda chaniatâd y Corff Llywodraethol, neu ar ffurf litwrgïau achlysurol i'w defnyddio ar achlysuron penodol neu mewn cyd-destunau penodol trwy gyfrwng eu *ius liturgicum* presennol (sef hawl esgob i orchymyn bywyd litwrgaidd yn ei esgobaeth, yn amodol ar gyfraith yr Eglwys yng Nghymru).

Yn fwy diweddar gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â graddau'r amrywiadau i litwrgïau'r Llyfr Gweddi Gyffredin y gellir eu defnyddio mewn perthynas â deunydd o'r fath, a chyfreithlondeb y cyfryw amrywiadau, o gofio bod clerigion yn addo adeg eu sefydlu neu eu trwyddedu y byddant yn defnyddio 'ffurfiau gwasanaeth a ganiateir gan awdurdod cyfreithlon' yn unig.

Mae'r bil yn ceisio egluro'r gyfraith ganon mewn perthynas ag amrywiadau ym mywyd litwrgaidd yr Eglwys yng Nghymru trwy bennu sut ac i ba raddau y gall clerigion awdurdodi neu fabwysiadu amrywiadau o'r fath (Cymal 1). Mae Cymal 2 yn ei gwneud hi'n ofynnol i unrhyw amrywiad a phob amrywiad gyd-fynd â meini prawf arbennig, gyda Chymalau 4 i 7 yn rhoi rhagor o fanylion am y ffordd y dylid cymhwyso'r canon at yr Eglwys yng Nghymru. Mae Cymal 3 yn caniatáu i Fainc yr Esgobion a'r Corff Llywodraethol baratoi neu gasglu deunydd y gall gweinidogion ei ddefnyddio yn unol â Chymal 1. Mae Cymal 5 yn gosod rhai cyfyngiadau ar y caniatâd a roddir yng Nghymal 1 trwy eithrio materion o bwysigrwydd athrawiaethol penodol, neu ddeunydd mewn defodau arbrofol.

Cymeradwywyd y memorandwm gan y Pwyllgor Sefydlog 8 Gorffennaf 2021